# Dogfennau Gwiriad Adnabod y DBS

**Y Dogfennau y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu darparu**
Rhaid i'r person sy'n cael gwiriad DBS (yr ymgeisydd) roi dogfennau gwreiddiol i'w cyflogwr (dim copïau) i brofi eu hunaniaeth. Bydd y dogfennau gofynnol yn dibynnu ar drywydd Llwybr y cais. Rhaid i'r ymgeisydd geisio darparu dogfennau o Lwybr 1 yn gyntaf.

**Llwybr 1**
Rhaid i'r ymgeisydd fod yn gallu dangos:
- Un ddogfen o Grŵp 1 isod
- 2 ddogfen bellach o un ai Grŵp 1, neu Grŵp 2a neu 2b, isod

Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau ddangos cyfeiriad cyfredol yr ymgeisydd.

**Llwybr 2**
Os nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw un o ddogfennau Grŵp 1, yna rhaid iddo fod yn gallu dangos:
- Un ddogfen o Grŵp 2a
- 2 ddogfen bellach o un ai Grŵp 2a neu 2b

Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau ddangos cyfeiriad cyfredol yr ymgeisydd. Yna rhaid i'r sefydliad sy'n cynnal y gwiriad ID hefyd ddefnyddio gwasanaeth dilysu ID allanol i wirio'r cais.

**Llwybr 3**
Gellir defnyddio Llwybr 3 ddim ond os yw'n amhosibl prosesu'r cais drwy Lwybrau 1 neu 2.
Ar gyfer Llwybr 3, rhaid i'r ymgeisydd fod yn gallu dangos:
- Tystysgrif geni a gyflwynwyd ar ôl yr enedigaeth (DU ac Ynysoedd y Sianel)
- Un ddogfen o Grŵp 2a
- 3 dogfen bellach o Grŵp 2a neu 2b

Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau hyn ddangos cyfeiriad cyfredol yr ymgeisydd. Os na all yr ymgeisydd ddarparu'r dogfennau hyn mae'n bosibl y bydd angen cymryd olion bysedd yr ymgeisydd.

**Grŵp 1: Prif ddogfennau adnabod**

| **Dogfennau** | **Nodiadau** |
|---|---|
| Pasbort | Unrhyw basbort cyfredol a dilys |
| Trwydded breswyl biometreg | DU |
| Cerdyn ffoto trwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro) | DU, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel a'r UE |
| Tystysgrif geni – cyflwynwyd oddi fewn i 12 mis o'r enedigaeth | DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel – yn cynnwys y rheini a gyflwynwyd gan awdurdodau DU dramor, e.e. llysgenhadon, Uwch Gomisiynwyr a Lluoedd Arfog EM |
| Tystysgrif mabwysiadu | DU ac Ynysoedd y Sianel |

**Grŵp 2a: Dogfennau a ymddiriedir gan y llywodraeth**

| **Dogfen** | **Nodiadau** |
|---|---|
| Cerdyn ffoto trwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro) | Pob gwlad y tu allan i'r UE (ac eithrio Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel) |

| Dogfen | Nodiadau |
|---|---|
| Cerdyn ffoto trwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro) – fersiwn bapur (os yw'r dyddiad cyflwyno cyn 1998) | DU, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel a'r UE |
| Tystysgrif geni – cyflwynwyd ar enedigaeth | DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel |
| Tystysgrif Priodas / partneriaeth sifil | DU ac Ynysoedd y Sianel |
| Cerdyn ID Lluoedd Arfog EM | DU |
| Trwydded Ddrylliau | DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw |

**Grŵp 2b: Dogfennau ariannol a hanes cymdeithasol**

| Dogfen | Nodiadau | Dyddiad cyflwyno a dilysrwydd |
|---|---|---|
| Datganiadau morgais | DU neu AEE | Cyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf |
| Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu = | DU ac Ynysoedd y Sianel neu AEE | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Llythyr cadarnhau agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu | DU | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Datganiad cerdyn credyd | DU neu AEE | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Datganiad ariannol, e.e. pensiwn neu waddol | DU | Cyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf |
| Datganiadau P45 neu P60 | DU ac Ynysoedd y Sianel | Cyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf |
| Datganiad Treth Gyngor | DU ac Ynysoedd y Sianel | Cyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf |
| Trwydded waith neu fisa | DU | Dilys hyd at ddyddiad dod i ben |
| Llythyr nawdd oddi wrth ddarparwr cyflogaeth yn y dyfodol | Ddim o'r-DU nac -AEE yn unig – dilys yn unig i ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r DU ar adeg ymgeisio | Rhaid bod yn ddilys |
| Bil gwasanaeth | DU – bil ffôn – dim symudol | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Datganiad budd-daliadau, e.e. budd-dal plant, pensiwn | DU | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Dogfen Llywodraeth ganolog neu leol, asiantaeth lywodraethol, neu gyngor lleol yn rhoi'r hawl, e.e. oddi wrth yr Adran Waith a Phensiynau, y Gwasanaeth Gyflogi, CThEm | DU ac Ynysoedd y Sianel | Cyflwynwyd yn ystod y 3 mis diwethaf |
| Cerdyn ID Gwladolyn UE | - | Rhaid bod yn ddilys o hyd |
| Cardiau'n cynnwys logo achredu PASS | DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | Rhaid bod yn ddilys o hyd |
| Llythyr oddi wrth y pennaeth neu brif athro'r | DU – ar gyfer 16 i 19 oed mewn | Rhaid bod yn ddilys o |

| **Dogfen** | **Nodiadau** | **Dyddiad cyflwyno a dilysrwydd** |
|---|---|---|
| coleg | addysg llawn amser – i'w ddefnyddio ddim ond mewn amgylchiadau eithriadol os na ellir darparu dogfennau eraill | hyd |